| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR :** | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| **DYDDIAD :** | **22 MAWRTH 2012** |
| **TEITL YR ADRODDIAD :** | **ADRODDIAD CYNNYDD AR ARCHWILIO MEWNOL 01 EBRILL 2011 – 25 TACHWEDD 2011** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **ER GWYBODAETH** |
| **ADRODDIAD GAN :** | **RHEOLWR ARCHWILIO - RSM TENON** |
| **GWEITHREDU:** | **Penderfyniadau / Cymeradwyaeth fel y nodwyd yn yr adroddiad** |

## 1. RHAGARWEINIAD

**1.1** Yn yr adroddiad hwn, crynhoir gwaith yr Adain Archwilio Mewnol hyd at 02 Mawrth 2012 a hefyd mae ynddo grynodeb o bob un o'r adroddiadau terfynol y rhoddwyd iddynt farn 'Sicrwydd Coch' ynghyd â Chrynodebau Gweithredol o'r adroddiadau.

**1.2** Yn achos pob adroddiad terfynol y rhoddwyd iddo farn 'Sicrwydd Coch', paratoir Arolwg Dilyn-i-fyny ac yn hwnnw, nodir beth yw barn yr Adain Archwilio ar gynnydd y rheolwyr yn y broses o weithredu ar argymhellion yn y categori Uchel a Chanolig yn codi o'r Adroddiad Terfynol gwreiddiol. Cyflwynir canlyniadau'r arolwg Dilyn-i-fyny i'r Pwyllgor Archwilio nesaf.

**1.3** Cafodd un adolygiad yn y cyfnod farn 'Sicrwydd Coch' ac mae crynodeb o gasgliadau'r adolygiad hwn ynghlwm yn Atodiad C ar ddiwedd yr adroddiad hwn. Roedd yr adolygiad yn ymwneud â trefniadau Diogelu o ran gweithdrefnau recriwtio'r Cyngor.

**1.4** Mae'r Uned Archwilio Mewnol yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar risg lle bynnag y mae hynny'n bosib, ond gall ddefnyddio Arolygon System, Arolygon Rheolaethau Allweddol, Arolygon Sefydliad neu Arolygon Ymgynghorol os yw'r dulliau hyn yn fwy priodol.

**1.5** Mae'r adroddiadau terfynol unigol ar gael i aelodau'r Pwyllgor hwn, ar sail gyfrinachol, ar gais i'r Pennaeth Gwasanaeth – Archwilio.

## 2. Y GWAITH A WNAED HYD YMA

2.1 Cytunwyd ar Gynllun Gweithredol 2011-12 yn y Pwyllgor Archwilio a gafwyd ar 24 Mawrth 2011. Paratowyd y Cynllun mewn ymgynghoriad gyda'r Archwiliwr Allanol, gyda'r Swyddog Adran 151 a thrwy gyfarfodydd a gohebiaeth gyda'r Penaethiaid Gwasanaeth.

2.2 Mae Tabl 1 isod yn dangos statws yr adolygiadau sy'n cael eu gwneud ar hyn o bryd ac/neu sydd wedi eu cwblhau hyd at adroddiad terfynol yn y cyfnod hwn ynghyd â'r farn archwilio gyffredinol.

**Tabl 1**

| Teitl yr Adolygiad | Maes Gwasanaeth | Blwyddyn y Cynllun AM | Statws | Barn CAG |
|---|---|---|---|---|
| ***Adolygiadau sy'n seiliedig ar risg/ Adolygiadau System*** | | | | |
| Diogelu – Recriwtio CRB | Corfforaethol | 2011/12 | TERFYNOL | COCH |
| Tracio Argymhellion Trydydd Parti | Corfforaethol | 2011/12 | TERFYNOL | YMGYNGHOROL |
| Rheoli Risg – Datganiad Sefyllfa | Corfforaethol | 2011/12 | TERFYNOL | YMGYNGHOROL |
| Cytundebau Canlyniad – (Pis) – Gwasanaethau Cymdeithasol | Corfforaethol | 2011/12 | TERFYNOL | YMGYNGHOROL |
| Cytundebau Canlyniad – (Pis) – Hamdden | Corfforaethol | 2011/12 | TERFYNOL | YMGYNGHOROL |
| Adroddiad Thematig - Polisïau | Corfforaethol | 2011/12 | TERFYNOL | YMGYNGHOROL |
| Rhenti Tai | Tai | 2011/12 | TERFYNOL | GWYRDD |
| Casglu Arian/Incwm | Cyllid | 2011/12 | TERFYNOL | GWYRDD |
| Dyledwyr Amrywiol | Cyllid | 2011/12 | TERFYNOL | GWYRDD |
| Cyflogau | Cyllid | 2011/12 | TERFYNOL | GWYRDD |
| Trefniadau ar gyfer Ffonau Symudol | TGCh | 2011/12 | TERFYNOL | GWYRDD AMBR |
| Credydwyr | Cyllid | 2011/12 | TERFYNOL | GWYRDD |
| Treth Gyngor | Cyllid | 2011/12 | TERFYNOL | GWYRDD |
| Trethi Cenedlaethol Annomestig | Cyllid | 2011/12 | TERFYNOL | GWYRDD |
| Budd-daliadau Tai | Cyllid | 2011/12 | TERFYNOL | GWYRDD AMBR |
| Prif System Gyfrifo | Cyllid | 2011/12 | TERFYNOL | GWYRDD |
| Rheoli'r Trysorlys | Cyllid | 2011/12 | TERFYNOL | GWYRDD |
| Contract Cynnal a Chadw Tiroedd | Priffyrdd | 2011/12 | DRAFFT | |
| Canolfan Hamdden Plas Arthur | Hamdden | 2011/12 | DRAFFT | |
| Pwrcasu – Yn cynnwys E-Dendro | Corfforaethol | 2011/12 | Gwaith yn mynd rhagddo | |
| Cludiant Ysgol | Addysg | 2011/12 | Gwaith yn mynd | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | rhagddo | |
| Rhenti Unedau Diwydiannol | Eiddo | 2011/12 | Gwaith yn mynd rhagddo | |
| Oriel | Hamdden | 2011/12 | Gwaith yn mynd rhagddo | |
| ***Ysgolion*** | | | | |
| Ysgol Dwyran | Addysg | 2011/12 | TERFYNOL | GWYRDD |
| Ysgol Moelfre | Addysg | 2011/12 | TERFYNOL | GWYRDD AMBR |
| Ysgol Rhosneigr | Addysg | 2011/12 | TERFYNOL | GWYRDD |
| Ysgol Morswyn | Addysg | 2011/12 | TERFYNOL | GWYRDD |
| Ysgol Llanbedrgoch | Addysg | 2011/12 | DRAFFT | |
| Ysgol Llanfechell | Addysg | 2011/12 | Gwaith yn mynd rhagddo | |
| ***Ymchwiliadau*** | | | | |
| Contractau Trydan | - | 2011/12 | Gwaith yn mynd rhagddo | |
| Contractau Gwaith Plymio | - | 2011/12 | Gwaith yn mynd rhagddo | |

## 2.3 CRYNODEB O'R ADRODDIADAU ARCHWILIO A GYNLLUNIWYD AC A GYHOEDDWYD YN Y CYFNOD HWN

Ers y Pwyllgor Archwilio diwethaf, rydym wedi cyhoeddi 21 adroddiad terfynol o Gynllun Gweithredol Archwilio Mewnol 2011-12. Hyd yma, mae 53 o adroddiadau terfynol wedi eu cyhoeddi yn 2011/12.

Mae crynodeb o'r graddfeydd a roddwyd ar gyfer yr adroddiadau terfynol a gyhoeddwyd i'w weld yn y tabl isod. Mae crynodeb o'r graddfeydd fel a ganlyn:

| Barn / Graddfa CAGG | Beth yw ystyr y raddfa newydd | Ers y Pwyllgor Archwilio Diwethaf | Ebrill 2010 hyd at Ebrill 2011 |
|---|---|---|---|
| Gwyrdd (Graddfa A&B) | Ar ôl ystyried y materion a nodwyd, gall yr Awdurdod gymryd sicrwydd sylweddol bod y rheolaethau y mae'r Cyngor yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi'u dylunio'n addas ac yn cael eu defnyddio'n gyson ac effeithiol. | 12 | 21 |
| Gwyrdd Oren (Graddfa C) | Ar ôl ystyried y materion a nodwyd, gall yr Awdurdod gymryd sicrwydd rhesymol bod y rheolaethau y mae'r Cyngor yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi'u dylunio'n addas ac yn cael eu defnyddio'n gyson ac effeithiol.<br><br>Fodd bynnag, rydym wedi canfod rhai pethau fydd, oni chânt sylw, yn ychwanegu at y tebygrwydd y bydd y risg yn troi'n ddigwyddiad. | 3 | 11 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Coch Oren (Graddfa D) | Ar ôl ystyried y materion a nodwyd, gall yr Awdurdod gymryd rhywfaint o sicrwydd bod y rheolaethau y mae'r Cyngor yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi'u dylunio'n addas, yn cael eu defnyddio'n gyson ac effeithiol. Angen cymryd camau i reoli'r risg. | 0 | 0 |
| Coch (Graddfa E) | Ar ôl ystyried y materion a nodwyd, ni all yr Awdurdod gymryd sicrwydd bod y rheolaethau y mae'r Cyngor yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi'u dylunio'n addas nac yn cael eu defnyddio'n gyson ac effeithiol.<br><br>Rhaid cymryd camau i reoli'r risg. | 1 | 4 |
| Cynghorol / Ymchwiliad | Arolwg cynghorol wedi'i gynllunio i bwrpas rhoddi cyngor ymarfer da – Dim barn ffurfiol. | 5 | 17 |
| | Cyfanswm | **21** | **53** |

**2.4** **Materion Staffio -** Cynhaliwyd cyfweliadau am swydd wag yr Archwiliwr Mewnol yn y Tîm ar 5 Mawrth 2012. Cytunodd yr ymgeisydd llwyddiannus i dderbyn y swydd a bydd yn dechrau ar 16 Ebrill 2012.

**2.5** **Adroddiadau gyda dim ymateb –** Mae'r Pwyllgor eisoes wedi penderfynu y dylid cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor lle na chafwyd ymateb cyn pen 3 mis o gyhoeddi adroddiad drafft neu adroddiad drafft diwygiedig gan yr Adain Archwilio Mewnol.

Yn y cyfnod dan sylw yn yr Adroddiad Cynnydd hwn, fe ryddhawyd un adroddiad ac ni chafwyd ymateb ers dros 3 mis. Mae'r adroddiad yn ymwneud ag adolygiad yn Ysgol Llanbedrgoch.

## 3. CYMHARU PERFFORMIAD GWIRIONEDDOL Y GWASANAETH YN ERBYN TARGEDAU BLYNYDDOL AM Y CYFNOD 01/04/11 – 25/11/11

**3.1** Mae'r tabl isod yn dangos perfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn erbyn targedau y cytunwyd arnynt ac a nodwyd yng Nghynllun Datblygu Busnes y Gwasanaeth ar gyfer 2011/12. Adroddir ar gynnydd yn erbyn y targedau hyn hefyd i'r cyfarfodydd perfformio chwarterol ar gyfer cyllid.

| Mesur Perfformiad | Targed 2011/12 | Gwirioneddol wedi ei addasu ar gyfer y cyfnod | Statws Targed | Cyfeiriad y Daith ers y cyfnod blaenorol |
|---|---|---|---|---|
| % o'r cynllun archwilio 2011/12 a gwblhawyd yn y flwyddyn hyd at adroddiad drafft (60 o adolygiadau yn y cynllun – 3 adroddiad drafft yn y cyfnod a 43 adroddiad terfynol o 2011-12). | 90% | 77% | ☹ | ⬆ |
| Canran y diwrnodiau y codir amdanynt yn y cynllun a ddefnyddiwyd (950 diwrnod) | 100% | 83% | ☹ | ⬇ |
| Lefelau boddhad cyffredinol y cwsmer yn seiliedig ar holiaduron. | 90% | 100% | ☺ | ⬅ ➡ |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| % o'r holl argymhellion archwilio mewnol Uchel a Chanolig a weithredwyd o 01/04/10 | 80% | 59% | ☹ | ⬇ |
| Nifer yr adolygiadau cynlluniedig o Feysydd Risg Corfforaethol a nodwyd. | 9 | 9 | ☺ | **Cwblhawyd** |
| Cynnal dwy sesiwn hyfforddi ar gyfer y Pwyllgor Archwilio yn y cyfnod | 2 | 0 | 😐 | ⬅➡ |
| Cwblhau adolygiad o Brosesau Gweithredu Cynlluniau Gwaith Darparwyr Sicrwydd Trydydd Parti Allanol | 1 | 1 | ☺ | **Cwblhawyd** |
| Cwblhau adolygiad o ran gwirio data mesur perfformiad yn y Cyngor | 1 | 2 & 1 Gwaith yn mynd rhagddo | ☺ | **Cwblhawyd** |
| Gostyngiad yn nifer y dyddiau archwilio y codir amdanynt yn sgil cydweithredu yn y cyfnod | 10 | 0 | 😐 | ⬅➡ |
| Nifer yr adolygiadau cydweithredol / adolygiadau gan ddefnyddio papurau gweithio cydweithredol a gynhaliwyd yn y cyfnod. | 3 | 0 | 😐 | ⬅➡ |

**3.2** Nid yw canran y dyddiau y codir amdanynt wedi gwella yn erbyn y targed sydd yn rhannol yn adlewyrchiad o'r 20% o ddyddiau a gollwyd trwy i swydd fod yn wag. Mae adnodd ychwanegol o ran dyddiau archwilio contract wedi caniatáu i'r tîm wella ei berfformiad mewn perthynas â'r nifer o adolygiadau yn y cynllun a gwblhawyd ond ni all wneud i fyny yn llawn am y diffyg dyddiau.

**3.3** Mae canran y Cynllun Archwilio a gwblhawyd ar 77% yn is na'r targed o 90%. Unwaith yn rhagor, mae hyn i'w briodoli'n rhannol i'r swydd wag o fewn y Tîm am y cyfan o'r cyfnod. Mae'r Tîm wedi cwblhau'r cwbl o'r 10 archwiliad system ariannol allweddol, sef y rhai y mae'r Archwilydd Allanol eu hangen i allu dibynnu ar waith Archwilio Mewnol.

**3.4** Mae'r ganran o argymhellion yn y categori Uchel a Chanolig a weithredwyd, sef 59%, yn is na'r targed. Bydd Archwilio Mewnol yn parhau i anfon nodiadau atgoffa i ddiweddaru er mwyn sicrhau bod yr holl gamau gweithredu ar argymhellion yn cael eu cofnodi ar y system.

## 3. GWAITH YMCHWILIO ARBENNIG

**4.1** Yn ystod y flwyddyn, mae'r Adain Archwilio Mewnol yn gorfod gwneud gwaith ar faterion sy'n dod i'r fei yn ystod gwaith archwilio rhaglenedig neu oherwydd materion a ddygir i sylw'r Adain gan Adrannau eraill a gwaith hefyd y mae adrannau eraill yn gofyn i'r Adain Archwilio Mewnol ei wneud. Hefyd, mae'n bosib y bydd yr Archwiliwr Allanol yn gofyn iddynt am wybodaeth neu am gymorth i ddarparu gwybodaeth. Yn sgil rhai o'r ymchwiliadau hyn, cyhoeddir adroddiadau archwilio ffurfiol ond weithiau ni chyhoeddir adroddiad o'r fath (e.e. pan fo'r haeriad yn anghywir ac o'r herwydd does dim byd i'w adrodd yn ôl, neu pan nad yw swm a sylwedd y gwaith yn ddigon i gyfiawnhau adroddiad archwilio llawn neu pan fo'r mater wedi cael sylw mewn adroddiad gan yr Archwiliwr Allanol).

**4.2** Mae'r ddau achos yr adroddwyd yn ôl arnynt yn y Pwyllgor diwethaf oedd yn ymwneud â pheidio adnewyddu contract a'r llall oedd yn ymwneud â gweithrediad contract cyfredol yn parhau i fynd yn eu blaenau. Ni fu adnoddau ar gyfer yr adolygiadau hyn ar gael yn ystod y cyfnod.

**4.3** Mae'r ymchwiliad ynglŷn â'r grant adnewyddu fel yr adroddwyd yn yr adroddiadau Cynnydd Archwilio Mewnol blaenorol bellach wedi dod i ben gyda chyhoeddiad adroddiad yr Archwiliwr Allanol. Ni chanfu'r adroddiad unrhyw dystiolaeth o dwyll neu anghysondeb ar ran y Cyngor na'i weithwyr.

## 5. TRACIO ARGYMHELLION

**5.1** Ar gyfer adrodd i'r Pwyllgor hwn, dim ond argymhellion wnaed ers 01-04-10 sydd wedi eu cynnwys yn y dadansoddiad tracio argymhellion.

**5.2** Mae perfformiad gweithredu argymhellion yn y cyfnod yn is na'r targed gyda 57% o argymhellion Uchel a Chanolig wedi eu cofnodi fel rhai y gweithredwyd arnynt a 60% o'r holl argymhellion a wnaed. Mae graff yn dangos manylion yr argymhellion y gweithredwyd arnynt fesul Gwasanaeth ynghlwm yn Atodiad A. Mae dadansoddiad o'r nifer o argymhellion a ddefnyddiwyd i bwrpas gweithio allan canran yr argymhellion y gweithredwyd arnynt ynghlwm yn Atodiad B.

## 6. ADRODDIADAU BARN SICRWYDD COCH A RYDDHAWYD YN Y CYFNOD

**6.1** **Fframwaith Diogelu – Recriwtio –** Cynhaliwyd Archwiliad o Fframwaith Diogelu – Recriwtio fel rhan o Gynllun Cyfnodol Archwilio Mewnol oedd wedi'i gymeradwyo ar gyfer 2011/12. Canlyniad yr archwiliad oedd rhyddhau barn sicrwydd Coch yn seiliedig ar sgôp yr adolygiad a wnaed. Mae'r crynodeb Gweithredol o'r Adroddiad Terfynol o'r adolygiad i'w weld ynghlwm yn Atodiad C er gwybodaeth.

**6.2** Trafododd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio yr adroddiad a'r argymhellion gyda'r Prif Weithredwr ar 10.01.12. Cytunwyd y byddai'r Prif Weithredwr yn mynd â'r adroddiad a'r argymhellion i'r Grŵp Arweinyddiaeth Strategol am benderfyniad ynglŷn â'r ffordd orau i fynd i'r afael yn gorfforaethol â'r materion oedd yn cael eu codi yn yr adroddiad.

## 7. STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL 2012/2015

**7.1** Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd y gwaith paratoi ac ymgynghori ar Strategaeth Archwilio Mewnol 2012/15 ar y gweill. Bydd y ddogfen yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio nesaf i'w chymeradwyo. Bydd y Strategaeth yn cynnwys y Cynllun Gweithredol Archwilio Mewnol am 2012/13.

## 8. HYFFORDDIANT I'R PWYLLGOR ARCHWILIO

**8.1** Mae'r hyfforddiant a fwriedir yn cynnwys yr adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio fu yn y gorffennol yn seiliedig ar hunan asesiad yn erbyn rhestr wirio CIPFA / SOLACE am effeithlonrwydd a sesiwn ar drefniadau Gwrth-Dwyll o fewn y

Cyngor. Bydd y sesiwn hon yn seiliedig ar yr arfer orau yn nogfen CIPFA – 'Rheoli'r Risg o Dwyll'.

**8.2** Nod y ddwy sesiwn yw cymharu trefniadau a pherfformiad cyfredol y Cyngor yn erbyn yr arfer orau a nodi meysydd ar gyfer gwelliant i'w cynnwys mewn Cynllun Gweithredu. Bydd cynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu wedyn yn cael ei fonitro yn ystod y flwyddyn ddilynol yn ei gyfarfodydd rheolaidd.

**8.3** Mae sesiwn hyfforddiant ar y cyd gydag aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini hefyd wedi'i threfnu. Bydd yr hyfforddiant yn cynnwys fframwaith Rheoli Risg y Cyngor a'r trefniadau adrodd yn ôl ac y mae'n cael ei drefnu gan y Swyddog Adran 151 Dros Dro a'r Pennaeth Gwasanaeth - Cyllid.

**8.4** Mae'r Pennaeth Gwasanaeth Archwilio ar hyn o bryd yn gwneud y trefniadau ar gyfer cynnal yr hyfforddiant.

## 9. PENODI AELOD ANNIBYNNOL

**9.1** Adroddwyd yn y Pwyllgor Archwilio diwethaf - yn dilyn ail-hysbysebu'r swydd Aelod Annibynnol ar Bwyllgor Archwilio'r Cyngor, bod 17 cais am wybodaeth wedi'u derbyn ac i 7 o geisiadau wedi'u cwblhau cael eu dychwelyd.

**9.2** Cytunwyd yn y cyfarfod diwethaf y byddai swyddogion yn adolygu ac yn sgorio'r 7 cais a dderbyniwyd am eu haddasrwydd yn erbyn y meini prawf penodol a chreu rhestr fer i gael eu cyfweld gan aelodau'r Pwyllgor.

**9.3** Rhoddir adroddiad ar lafar i'r Pwyllgor gan y Pennaeth Gwasanaeth – Archwilio yn crynhoi canlyniad yr adolygiad o'r ceisiadau a dderbyniwyd a'r ymarferiad sgorio.

**Angen:** Gofynnir i'r Pwyllgor gysidro pa ymgeiswyr ddylai gael gwahoddiad i fynychu cyfweliad.


**RHEOLWR ARCHWILIO - RSM TENON**
**22 Mawrth 2012**

**Tabl Tracio Argymhellion - yr Holl Argymhellion sydd wedi cael eu creu ers 01-04-2010** **ATODIAD A**

**Pwrpas yr adroddiad:** Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi sylwadau'r Rheolwyr i'r Pwyllgor ar y cynnydd wnaed ar argymhellion yr Archwiliad blaenorol a'r camau a gytunwyd.

**Sgôp yr adroddiad:** Mae'r adroddiad yn rhoi manylion am yr holl gamau y cytunwyd arnynt a oedd yn codi o waith Archwilio Mewnol.

**Tabl Cynnydd:** % Argymhellion a weithredwyd / na weithredwyd fesul Gwasanaeth lle gwnaed mwy na 25 o Argymhellion.



## Tabl Tracio Argymhellion - Argymhellion fesul Categori

**ATODIAD B**

| | Uchel | | Canolig | | Isel / Dim | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gweithredwyd / Disodlwyd | 11 | 31% | 70 | 69% | 200 | 61% |
| Heb eu gweithredu / yn cael eu gweithredu | 25 | 69% | 32 | 31% | 128 | 39% |

**Tabl Tracio Argymhellion - Argymhellion Wedi eu Gweithredu Categori Uchel a Chanolig**

| | | |
|---|---|---|
| Gweithredwyd / Disodlwyd | 81 | **59%** |
| Heb eu gweithredu / Yn cael eu gweithredu | 57 | **41%** |

Er mwyn dod i farn ynghylch y perfformiad corfforaethol cyffredinol o ran gweithredu argymhellion yr Adain Archwilio Mewnol yn seiliedig ar yr hunanasesiad o'r gwasanaethau defnyddiwyd y fformiwla isod:

| Cynnydd o ran gweithredu argymhellion | Y ganran o argymhellion a weithredwyd | Ystyried argymhellion categori Uchel | Ystyried argymhellion categori Canolig | Ystyried argymhellion categori Isel |
|---|---|---|---|---|
| **DA** | 80% + | Dim argymhellion angen sylw | Mae'r argymhellion arwyddocaol sydd angen sylw yn y broses o gael eu gweithredu. | Mae'r argymhellion ' haeddu sylw' sydd heb eu gweithredu yn y broses o gael eu gweithredu ar hyn o bryd. |
| **Rhesymol** | 50 – 80% | Mae'r argymhellion sylfaenol sydd ar ôl yn y broses o gael eu gweithredu | Mae'r argymhellion sylweddol sydd ar ôl yn y broses o gael eu gweithredu. | Mae'r argymhellion ' haeddu sylw' sydd heb eu gweithredu yn y broses o gael eu gweithredu ar hyn o bryd. |
| **Ychydig** | < 50% | Gwnaed cynnydd anfoddhaol | Gwnaed cynnydd anfoddhaol | Gwnaed cynnydd anfoddhaol |

Yn ein barn ni felly, ac yn seiliedig ar y data hunanasesu yn y Tabl Cynnydd yn Atodiad A, mae'r Cyngor wedi gwneud **cynnydd rhesymol** yn y cyfnod wrth weithredu argymhellion yr Adain Archwilio Mewnol. Mae hyn yn seiliedig ar y ganran o'r argymhellion (heb gynnwys y rheini sydd heb gyrraedd eu dyddiad gweithredu hyd yma) y mae eu statws wedi ei hunanasesu fel un ai,'gweithredwyd' neu 'disodlwyd', sef **61%** o'r holl argymhellion o'r fath.

# Fframwaith Diogelu – Recriwtio – Cyf. Adroddiad 1718.11/12

## CRYNODEB GWEITHREDOL

### 1.3 CYFLWYNIAD

Cynhaliwyd archwiliad o'r Fframwaith Diogelu - Recriwtio fel rhan o'r cynllun cyfnodol archwilio mewnol a gymeradwywyd ar gyfer 2011/12.

**Cefndir** - Roedd y Papur Gwyrdd 'Every Child Matters' (cyhoeddwyd 2003) a Deddf Plant 2004 yn seiliedig ar Ymchwiliad Victoria Climbié (2003) a'r adroddiad 'Safeguarding Children' cyntaf a gyhoeddwyd yn 2002. Roedd Deddf Plant 2004 yn edrych i sefydlu systemau mwy cadarn er mwyn sicrhau bod yr holl asiantaethau'n gweithio mewn partneriaeth i nodi unrhyw bryderon ynglŷn â lles ac i weithredu arnynt. Mae Diogelu Plant yn faes lle ceir deddfwriaeth a rheolaethau dyrys sy'n parhau i esblygu a chael eu mireinio. Fe ddiffiniwyd y term 'diogelu plant' fel:

- "The process of protecting children from abuse or neglect, preventing impairment of their health and development, and ensuring they are growing up in circumstances consistent with the provision of safe and effective care that enables children to have optimum life chances and enter adulthood successfully".

Mae'r camau diogelu a'r ddeddfwriaeth berthnasol yn ymwneud yn gyffredinol â phlant a phobl ifanc o'u genedigaeth hyd nes y bônt yn 19 oed.

**Dyletswydd Statudol y Cyngor** – Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn ddyletswydd statudol a moesol i ddiogelu lles plant, pobl ifanc ac oedolion bregus rhag unrhyw fath o gamdriniaeth. I'r pwrpas hwn, mae wedi'i gofrestru ar gyfer gwneud gwaith siecio gyda'r Swyddfa Cofnodiadau Troseddol (CRB) i ategu'r gwaith siecio cefndir, cymeriad ac unrhyw beth arall a wneir mewn perthynas â staff parhaol a dros dro, contractwyr annibynnol, aelodau etholedig ac aelodau a gyfetholir, gwirfoddolwyr ac ati. Mae gan y Cyngor gyfrifoldebau hefyd i ddarparu hyfforddiant priodol i staff mewn perthynas â Diogelu.

**Fframwaith Diogelu** - Fe ganfu ein hadolygiad bod y cyfrifoldeb am ddiogelu prosiectau siecio CRB wedi'i ddirprwyo i adrannau a gwasanaethau ynghyd â'r cyfrifoldeb am gadw cofnodiadau yn ymwneud â statws siecio CRB a hyfforddiant yn ymwneud â diogelu. Roedd y datganoli cyfrifoldebau a'r dyletswyddau cadw cofnodiadau'n ei gwneud yn anodd cael y dystiolaeth yr oeddem ei hangen i brofi'r meysydd hyn yn ystod yr adolygiad a hynny oherwydd y gwahaniaethau yn y prosesau o fewn yr adrannau a'r gwahanol lefelau o gydymffurfiaeth rhwng y gwasanaethau a brofwyd. Mae'r gwahaniaethau hyn mewn prosesau a chofnodi'n cynyddu'r risg na fydd unrhyw ddiffyg i gydymffurfio gyda pholisïau CRB yn cael eu nodi.


Yn gorfforaethol, nid oes unrhyw gyfrifoldeb nac atebolrwydd canolog i ddarparu sicrwydd i'r canol corfforaethol bod y Cyngor yn cydymffurfio gyda gofynion Diogelu allweddol ar sail barhaol.

Dyluniwyd yr archwiliad i asesu'r camau rheoli oedd yn eu lle i reoli'r amcanion a'r risgiau canlynol:

| | |
|---|---|
| Amcan | Bod y Cyngor yn gweithredu'n unol â'r arfer orau ym maes Diogelu plant ac oedolion bregus. |
| Risg | Bod y Cyngor yn methu â chyflawni ei ymrwymiadau o dan y Ddeddfwriaeth Diogelu ac felly yn methu â diogelu plant ac oedolion |

| | bregus yn ddigonol. |
|---|---|

## 1.2 CASGLIAD




**Gan gymryd y materion a nodwyd i ystyriaeth, ni fedr y Cyngor fod yn sicr bod y gweithdrefnau rheoli y mae'n dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi eu dylunio'n briodol, yn cael eu gweithredu'n gyson a'u bod yn effeithiol.**

**Mae angen cymryd camau i sicrhau bod y risg hon yn cael ei rheoli.**

Mae'r casgliadau uchod, sy'n bwydo i mewn i'r lefel sicrwydd cyffredinol yn seiliedig ar y dystiolaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad. Dyma'r casgliadau allweddol oedd yn deillio o'r arolwg:

**Dyluniad y fframwaith rheoli**

- Nid yw cyfrifoldeb ac atebolrwydd dros gydymffurfio'n gorfforaethol gyda deddfwriaeth a rheoliadau Diogelu wedi'i ddyrannu'n glir.
- Nid yw'r dystiolaeth am waith siecio CRB ac asesu risg yn cael ei gadw'n ganolog er mwyn darparu llwybr gweithredu y gellir ei archwilio a chaniatáu monitro corfforaethol o gydymffurfiaeth.
- Nid oes unrhyw fonitro canolog nac adrodd yn ôl am gydymffurfio gyda deddfwriaeth a rheoliadau Diogelu er mwyn darparu'r sicrwydd angenrheidiol i Uwch Reolwyr ac Aelodau.
- Nid yw'r Cyngor yn cadw cofnodiadau o hyfforddiant Diogelu a ddarparir gan gontractwyr, staff asiantaeth a gwirfoddolwyr.
- Ni wneir gwaith cysoni o ran dechreuwyr newydd ar y systemau AD a'r Gyflogres gyda chofnod o asesiadau risg a wneir a'r gwiriadau CRB y gofynnir amdanynt ac a dderbynnir er mwyn sicrhau bod y cofnodiadau'n gyfan.

**Gweithredu'r fframwaith reoli a chydymffurfio â'r fframwaith**

- Nodwyd enghreifftiau lle na allai'r gwasanaethau ddarparu tystiolaeth bod gwaith siecio CRB neu asesiad risg wedi'i wneud cyn bod gweithiwr newydd yn dechrau ar ei ddyletswyddau mewn achosion lle'r oedd y gweithiwr yn debygol o gael cyswllt rheolaidd gyda phlant neu oedolion bregus.
- Nid oedd y cofnodiadau oedd yn cael eu cadw am waith siecio CRB yn ei gwneud yn bosibl bob amser i nodi'r staff oedd angen adnewyddu eu CRB.
- Nid oedd cofnodiadau ar gael ym mhob achos fyddai'n rhoi tystiolaeth fod staff oedd angen derbyn hyfforddiant diogelu wedi derbyn yr hyfforddiant priodol.

## 1.3 SGÔP YR ADOLYGIAD

Amcan yr archwiliad oedd gweld pa mor ddigonol oedd rheoli risg a rheoli cyffredinol o fewn y system ac i ba raddau y mae'r rheolau hyn wedi'u gosod, gyda golwg ar roi barn. Mae gweithgareddau rheoli'n

digwydd er mwyn sicrhau bod y risgiau i gyflawni amcanion y sefydliad yn cael eu rheoli'n effeithiol. Wrth gynllunio'r archwiliad, fe gytunwyd ar y ffiniau canlynol:

**Ffiniau i sgôp yr archwiliad:**

- Byddwn yn cynnal asesiad o ddigonolrwydd rhai agweddau o'r fframwaith rheoli sy'n ymwneud â derbyn gwiriadau CRB yn dilyn recriwtio a hefyd am hyfforddi staff yn briodol ynglŷn â diogelu. Byddwn yn cynnal profion cyfyngedig i gadarnhau bod hyn yn digwydd yn ymarferol.
- Nid ydym wedi asesu unrhyw feysydd eraill o drefniadau'r Cyngor ar gyfer Diogelu fel y rhai (ond heb eu cyfyngu) a geir ym meysydd Iechyd a Diogelwch neu Bartneriaethau.
- Ni fwriadwyd ein gwaith i ailadrodd neu i ragweld canlyniad unrhyw archwiliad Diogelu.
- Nid yw'r gwaith yn darparu unrhyw sicrwydd rhag unrhyw gamgymeriadau o bwys, colled neu dwyll nac yn darparu sicrwydd absoliwt nad oes unrhyw gamgymeriadau o bwys, colled neu dwyll yn bodoli.

Yr agwedd a gymerwyd gyda'r archwiliad hwn oedd mai Archwiliad Cydymffurfiaeth ydoedd.